

Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm Y Cyfnod Sylfaen

		Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	<ul style="list-style-type: none"> dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau adnabod bod geiriau'n cael eu ffurfio o ffonemau (seiniau) a bod ffonemau'n cael eu cynrychioli gan graffemau (llythrennau ysgrifenedig): <ul style="list-style-type: none"> cyfuno cyfuniadau o lythrennau segmentu cyfuniadau o lythrennau darllen geiriau syml megis geiriau cytsain-llafariad-cytsain darllen penawdau a thestunau syml gan adnabod geiriau aml eu defnydd dangos ymwybyddiaeth o'r atalnod llawn wrth ddarllen dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng storiâu a thestunau gwybodaeth deall ystyr nodweddion gweledol y testun, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i> adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a deall eu hystyr 	<ul style="list-style-type: none"> dewis deunyddiau darllen ac esbonio ystyr testun a pham maent yn ei hoffi defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol: <ul style="list-style-type: none"> strategaethau ffonig i ddatgodi geiriau adnabod geiriau aml eu defnydd cliwiau'r cyd-destun, e.e. <i>gwybodaeth flaenorol</i> cliwiau graffig a chystrawennol hunan-gywiro gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen darllen testunau addas yn gywir ac yn rhugl darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnod llawn a'r gofynnod darllen ar goedd â mynegiant, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ebychnod a dyfynodau adnabod nodweddion testun syml megis teitlau a lluniau er mwyn esbonio'r testun chwilio am gliwiau yn y testun er mwyn deall gwybodaeth deall ystyr nodweddion gweledol a'u cysylltiad â'r testun ysgrifenedig, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i> adnabod geiriau a lluniau ar sgrin sy'n gysylltiedig â phwnc 	<ul style="list-style-type: none"> dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros eu dewisiadau defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol ar gyfer ystod ehangach o destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd: <ul style="list-style-type: none"> strategaethau ffonig adnabod geiriau aml eu defnydd cliwiau'r cyd-destun, e.e. <i>gwybodaeth flaenorol</i> cliwiau graffig a syntactig hunan-gywiro, gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen darllen ystod ehangach o destunau addas yn fwyfwy cywir a rhugl darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnodi, gan gynnwys atalnod llawn, gofynnod, ebychnod a dyfynodau, gan amrywio goslef, llais a chyflymder adnabod a defnyddio nodweddion testun, e.e. <i>teitlau, penawdau a lluniau</i>, i ganfod a deall gwybodaeth benodol chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i ddeall eu hystyr, e.e. <i>lluniau, siartiau a'r cynllun</i> adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen
	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	<ul style="list-style-type: none"> ail-ddweud storiâu cyfarwydd mewn ffordd syml adnabod gwybodaeth o destun gan ddefnyddio nodweddion gweledol a geiriau perthnasu gwybodaeth a syniadau o destun gyda phrofiad personol 	<ul style="list-style-type: none"> ail-ddweud digwyddiadau o ddarn o naratif yn y drefn gywir codi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gwrthrych testun dwyn i gof fanylion o destunau gwybodaeth defnyddio profiad personol er mwyn gallu deall testunau'n well
	Ymateb a dadansoddi	<ul style="list-style-type: none"> dangos diddordeb mewn llyfrau a deunyddiau darllen eraill ac ymateb i'w cynnwys dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol. 	<ul style="list-style-type: none"> mynegi barn am wybodaeth yn y testun archwilio iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth arall am y pwnc. 	<ul style="list-style-type: none"> mynegi barn am wybodaeth gan ddefnyddio manylion o'r testun dangos dealltwriaeth a mynegi barn am iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau gwneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc.

Llythrennedd – Darllen ar

draws y cwricwlwm

Cyfnod Allweddol 2

		Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun darllen testunau gwybodaeth byr yn annibynnol gan ganolbwyntio darllen ar goedd gan ddefnyddio atalnodi i helpu'r mynegiant cip ddarllen (sgimio) i gael trosolwg ar destun, e.e. <i>pwnc, pwrpas</i> chwilio am wybodaeth benodol mewn testunau gan ddefnyddio cynnwys, mynegeion, geirfâu, geiriaduron defnyddio cliwiau gweledol, e.e. <i>darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau</i>, er mwyn gwella dealltwriaeth adnabod dibenion gwahanol testunau, e.e. <i>rhoi gwybodaeth, cyfarwyddo, esbonio</i> adnabod sut mae testunau'n cael eu trefnu, e.e. <i>rhestr, pwyntiau â rhifau, diagramau â saethau, tablau a phwyntiau bwled</i> dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin, e.e. <i>barrau offer, barrau ochr, penawdau, saethau</i> 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun darllen testunau, gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio defnyddio dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i ddeall ystyr cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn pennod llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion mewn testunau, e.e. <i>teitlau, darluniau, geiriau allweddol</i> adnabod sut mae testunau'n gwahaniaethu yn ôl eu pwrpas, eu strwythur a'u cynllun dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio ac asesu pa ffyrdd yw'r rhai mwyaf effeithlon 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson adnabod sut mae atalnodi'n perthyn i gystrawen brawddeg a sut mae ystyr yn cael ei lunio mewn brawddegau cymhleth defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen (sgimio), e.e. <i>dod o hyd i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu</i> llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, e.e. <i>is-benawdau, diagramau</i> adnabod nodweddion testunau, e.e. <i>cyflwyniad i bwnc, dilyniant, darluniau, i ba raddau y mae'n ffurfiol</i> defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan dethol a llawrlwytho yn ôl yr angen 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio ystod o strategaethau i ddeall ystyr geiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth am ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cystrawen, trefn testun a gwybodaeth flaenorol am y cyd-destun darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau cyson deall sut gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, e.e. <i>Ces i gacen(,) siocled a chaws i de</i> defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth, e.e. <i>cip ddarllen (sgimio) am gynnwys bras, llithr ddarllen (sganio) am fanylion</i> darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol chwilio ar y rhyngwrwd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu
	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	<ul style="list-style-type: none"> nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, e.e. <i>drwy uwcholeuo, gan ddefnyddio geiriau allweddol y testun</i> dod i gasgliad ynglŷn â syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant, e.e. <i>achos ac effaith</i> cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol 	<ul style="list-style-type: none"> nodi'n gywir y prif syniadau a'r wybodaeth ategol mewn testunau dod i gasgliad ynglŷn â'r cysylltiadau rhwng gwybodaeth, e.e. <i>dilyniant, pwysigrwydd</i> archwilio gwybodaeth a syniadau'r tu hwnt i'w profiad personol 	<ul style="list-style-type: none"> dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau, e.e. <i>map meddwl gan osod syniadau yn nhrefn pwysigrwydd, siart lif sy'n nodi proses</i> dehongli ystyr nad yw wedi'i ddatgan yn bendant, e.e. <i>beth sy'n digwydd nesaf?, pam gwnaeth hifef hynny?</i> adnabod ac archwilio syniadau a gwybodaeth sydd o ddiddordeb iddynt
	Ymateb a dadansoddi	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddarllen a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y pwnc. 	<ul style="list-style-type: none"> dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau deall sut y gall rhywbeth gael ei gynrychioli ar ffurfiau gwahanol, e.e. <i>delwedd symudol, aml-foddol a phrint</i>. 	<ul style="list-style-type: none"> cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol dehongli'r hyn y mae awdur yn ei feddwl am y pwnc, e.e. <i>edmygu person hanesyddol, diddordeb yn unig mewn ffeithiau</i> pwysu a mesur a yw'r cynnwys yn ddibynadwy, e.e. <i>ydy ffotograffau'n fwy dibynadwy na lluniau?</i> 	<ul style="list-style-type: none"> cydgasglu a gwneud cysylltiadau, e.e. <i>blaenoriaethu, categorieiddio</i>, rhwng gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn ystyried safbwyntiau awduron gwahanol ar yr un pwnc, e.e. <i>mae llygod mawr yn ddiddorol neu'n broblem</i> ystyried a yw testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau.

Llythrennedd – Darllen ar draws y cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3

		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio’u gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> – tarddiadau a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i>, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a’r themâu allweddol, a’u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau’r rhyngwrwyd gan ystyried o ble mae’n dod a gwirio pa mor gywir yw hi 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio’u gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> – tarddiadau a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i>, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a’r themâu allweddol, a’u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl dewis a dethol pa ffynonellau ar y rhyngwrwyd i’w llawrlwytho neu i’w dyfynnu, yn ôl eu dibynadwyedd a’u perthnasedd 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio’u gwybodaeth am y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> – tarddiadau a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i>, i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a’r themâu allweddol, a’u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl defnyddio’r rhyngwrwyd yn llawn gan dethol yn ofalus er mwyn diweddarau, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion
	Ymateb i’r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	<ul style="list-style-type: none"> canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt dewis y prif bwyntiau mewn testunau ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i’w hategu darllen rhwng y llinellau gan ddehongli a dod i gasgliad adnabod sut trefnir testun, e.e. <i>yn rhesymegol neu’n thematig</i>, er mwyn gwneud i’r cynnwys fod yn eglur ac yn llawn gwybodaeth dilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil ymchwilio 	<ul style="list-style-type: none"> canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt dod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ychwanegol o ffynonellau gwahanol a’u defnyddio’n ddethol defnyddio, casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a’u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy’n cytuno â’i gilydd neu sy’n gwrth-ddweud ei gilydd darllen o amgylch pwnc sydd o ddiddordeb iddynt a datblygu dealltwriaeth ehangach drwy ymchwilio
	Ymateb a dadansoddi	<ul style="list-style-type: none"> cydgasglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol, e.e. <i>dwyn ynghyd a chrynhoi ffeithiau a syniadau am bwnc</i>, o destunau gwahanol gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn gan ddefnyddio tystiolaeth i ddangos y gwahaniaethau cymharu safbwyntiau ar yr un pwnc a phwyso a mesur p’un yw’r mwyaf dilys gwerthuso cynnwys, cyflwyniad ac apêl testun. 	<ul style="list-style-type: none"> crynhoi a chyfuno gwybodaeth, e.e. <i>cyfrif cryno o bwnc eang</i>, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol gwahaniaethu rhwng rhagfarn a barn wrthrychol gan esbonio sut maent yn wahanol adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud gwerthuso testunau yn ôl eu hansawdd a’u lefel diddordeb. 	<ul style="list-style-type: none"> cyfuno a dadansoddi gwybodaeth er mwyn hybu dealltwriaeth ddofn, e.e. <i>o achosion, canlyniadau, patrymau</i>, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol gwahaniaethu rhwng ffeithiau/tystiolaeth a rhagfarn/dadl adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a’u cloriannu gwerthuso pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw testunau.

Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol.
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	Mae'r dysgwyr yn adeiladu ar eu sgiliau a'u profiadau drwy ddarllen ar draws y cwricwlwm i ymdrin â thestunau print, testunau ar sgrin a thestunau aml-foddol yn rhwydd. Mae ganddynt strategaethau i ymchwilio i ddadleuon ac ymdrin â phynciau anghyfarwydd, gan gydnabod eu ffynonellau. Maent yn defnyddio technegau (cip ddarllen (sgimio), llithr ddarllen (sganio), anodi, rhagfynegi) i gywain ystyr o destunau heriol. Maent yn deall pwyntiau amlwg a hefyd arlliwiau ystyr ac maent yn ymwybodol fod modd dehongli dadleuon a syniadau mewn ffyrdd gwahanol.
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	Maent yn gallu esbonio sut mae testunau'n defnyddio geiriau, dyluniadau, diagramau a delweddau i gyfleu ystyr a dylanwadu ar y darlennydd/gwylwr a gallant werthuso pa mor effeithiol yw'r technegau hyn. Maent yn defnyddio'r we'n ddeallus, gan ymchwilio'n ddewisol ac asesu dilysrwydd ac arwyddocâd eu canfyddiadau. Maent yn dangos eu dealltwriaeth drwy ddadansoddi, cyfuno a herio'r hyn a ddarllenant.
	Ymateb a dadansoddi	

**Llythrennedd – Llafaredd
ar draws y cwricwlwm
Y Cyfnod Sylfaen**

Elfennau		Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
	Siarad	<ul style="list-style-type: none"> • siarad am bethau o’u profiad a rhannu gwybodaeth • defnyddio geiriau, cymalau a brawddegau syml • mynegi beth yw eu hoff bethau a’u cas bethau • siarad yn glywadwy • cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau yn newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>dau gi, y gath</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi barn ar bynciau cyfarwydd • siarad am bethau y maent wedi’u llunio neu wedi’u gwneud, gan esbonio’r broses • cynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol i ymhelaethu ar eu syniadau neu eu hadroddiadau • siarad yn glywadwy, gan gyfleu ystyr i wrandawyr sydd y tu hwnt i’w grŵp cyfeillion • mabwysiadu rôl gan ddefnyddio iaith briodol • dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau’n newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>y ferch</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • mynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau • ymestyn eu syniadau neu eu hadroddiadau gan drefnu’r hyn y maent yn ei ddweud a chynnwys manylion perthnasol • siarad yn eglur ag ystod o gynulleidfaoedd • mabwysiadu rôl benodol, gan ddefnyddio iaith sy’n briodol mewn sefyllfaoedd strwythuredig • <i>defnyddio ambell dreigl y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. y bêl, fy mag, i’r dref</i>
	Gwrando	<ul style="list-style-type: none"> • dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, e.e. <i>wrth dynnu llun</i> • ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi, rhigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth • gofyn cwestiynau am rywbeth a ddywedwyd 	<ul style="list-style-type: none"> • gwrando ar eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, e.e. <i>dilyn cyfarwyddiadau’n gywir</i> • ymuno wrth adrodd/canu amrywiaeth o rigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof • ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed • dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau i ddod o hyd i ragor o wybodaeth • ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir fel arfer, e.e. <i>Oes? Oes/Nac oes</i> 	<ul style="list-style-type: none"> • gwrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen • ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi eu clywed, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir • dangos eu bod yn deall yr hyn y maent wedi ei glywed drwy holi cwestiynau perthnasol i ddod o hyd i wybodaeth benodol • ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir, e.e. <i>Ydy? Ydy/Nac ydy</i>
Cydweithio a thrafod	<ul style="list-style-type: none"> • cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, e.e. <i>gyda ffrindiau</i> • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio. 	<ul style="list-style-type: none"> • cyfrannu i sgysiau ac ymateb i eraill, gan gymryd eu tro o’u hysgogi • cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud. 	<ul style="list-style-type: none"> • cyfrannu i drafodaeth, parhau i ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad • rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg. 	

**Llythrennedd – Llafaredd
ar draws y cwricwlwm
Cyfnod Allweddol 2**

		Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	<ul style="list-style-type: none"> esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn, e.e. <i>pwysleisio pwyntiau allweddol, rhoi esboniad yn ei drefn</i> siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr defnyddio iaith sy'n berthnasol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. <i>yn ystod y gwasanaeth, siarad ag ymwelydd (gan ddechrau defnyddio tilchi)</i> cadw mewn rôl a chynorthwyo eraill wrth chwarae rôl defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir fel arfer, e.e. <i>y gadair, ar ben</i> 	<ul style="list-style-type: none"> esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio adnoddau cynorthwyol, e.e. <i>deunyddiau ar sgrin ac ar y we</i> trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. <i>rhoi gwybodaeth gefndir, rhoi crynodeb byr o'r prif bwyntiau</i> addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach, e.e. <i>defnyddio tilchi</i> archwilio sefyllfaoedd gwahanol drwy chwarae rôl defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon</i> 	<ul style="list-style-type: none"> esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, e.e. <i>defnydd o eirfa, ystum, cynorthwyon gweledol</i> siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thafllu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. <i>digwyddiad i rieni/gofalwyr, cyflwyniad i ymwelwyr</i> archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl treiglo'n gywir fel rheol ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. am funud, dy fam 	<ul style="list-style-type: none"> mynegi materion a syniadau'n eglur, gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tŵn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr archwilio materion heriol neu ddadleuol drwy barhau i gynnal y rôl y maent yn ei chwarae treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell</i>
	Gwrando	<ul style="list-style-type: none"> gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddysgu a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol 	<ul style="list-style-type: none"> gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud 	<ul style="list-style-type: none"> gwrando'n astud ar gyflwyniadau gan ddefnyddio technegau i gofio'r prif bwyntiau, e.e. <i>gwneud nodiadau, crynhoi</i> gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr 	<ul style="list-style-type: none"> gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o gasgliadau neu farn y siaradwr ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a chmau nesaf
	Cydweithio a thrafod	<ul style="list-style-type: none"> cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp. 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan helpu grŵp i ddod i gytundeb, e.e. <i>ystyried rhesymau neu ganlyniadau, cadw ffocws ar y pwnc/peidio â dilyn ysgyfarlogod wrth drafod pwnc.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, e.e. <i>cyflwyno syniadau perthnasol, crynhoi</i> ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp, e.e. <i>drwy holi cwestiynau i archwilio ymhellach, cynnig syniadau ychwanegol.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau.

Llythrennedd – Llafaredd
ar draws y cwricwlwm
Cyfnod Allweddol 3

Elfennau		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
	Siarad	<ul style="list-style-type: none"> cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. <i>mynegiant, tôn y llais, cryfder y sain</i> ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl dadlau'n llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc yn effeithiol, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i> defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun 	<ul style="list-style-type: none"> cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. <i>strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy</i> ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i> defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun 	<ul style="list-style-type: none"> cyflwyno syniadau a materion yn llawn argyhoeddiad gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith, e.e. <i>cwestiynau rhethregol, apelio at y gwrandawyr, ystumiau</i> ymateb i adwaith y gwrandawyr gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud cynnal dadl argyhoeddedig, rhagweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, e.e. <i>wrth chwarae rôl neu mewn dadl</i> defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun
	Gwrando	<ul style="list-style-type: none"> ymateb yn bwylllog i syniadau eraill, gan ofyn cwestiynau cymwys gwrando ar esboniadau o brosesau, dilyniant neu safbwyntiau a nodi'r prif bwyntiau yn eu trefn 	<ul style="list-style-type: none"> ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei ddefnyddio, e.e. <i>i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio</i> 	<ul style="list-style-type: none"> ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt gwrando ar wybodaeth a syniadau ac adnabod sut maent yn cael eu cyflwyno i hybu safbwynt penodol, e.e. <i>defnyddio iaith sy'n darbwyllo/perswadio, anwybyddu ffeithiau anghyfleus, dod i gasgliad afresymegol</i>
Cydweithio a thrafod	<ul style="list-style-type: none"> gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau, e.e. <i>arwain, annog a chefnogi eraill</i> cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu mewn grwpiau, e.e. <i>cytuno ar gynllun, pwysu a mesur rhesymau a thystiolaeth.</i> 	<ul style="list-style-type: none"> cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. <i>trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd</i> trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf. 	<ul style="list-style-type: none"> ymgyrdd ag amrywiaeth o rolau mewn trafodaeth grŵp gan gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu barn, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol, e.e. <i>cadeirydd, ysgrifennydd</i> nodi bod amrywiaeth o ddevisiadau o ran camau gweithredu a dod i gytundeb er mwyn cyflawni amcanion y grŵp. 	

Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol.
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	Mae'r dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando, a'u sgiliau i gyfrannu i grwpiau a gweithio gydag eraill. Mewn cyflwyniadau ffurfiol maent yn rhugl, yn ynganu'n eglur ac yn defnyddio ystod o dechnegau, gan gynnwys dewis o eirfa, mynegiant, ystum a chyswilt llygad, i gyfleu eu syniadau. Maent yn llunio eu cyflwyniad fel bod gwrandawyr yn gallu dilyn ac maent yn addasu eu defnydd o iaith i amcanion gwahanol yn effeithiol. Mewn cyd-destunau anffurfiol maent yn addasu i natur a maint y grŵp gan ddefnyddio iaith gydweithredol, fel awgrymiadau a chynigion petrus, i ddod i gasgliadau ar y cyd.
	Gwrando	Maent yn gwrando'n ofalus ar siaradwyr unigol a thrafodaethau grŵp, gan ddilyn trywydd syniadau a dadleuon a cheisio deall safbwyntiau eraill. Dangosir eu gwrandawriad sensitif wrth iddynt ddilyn syniadau eraill, gan eu profi drwy eu defnyddio mewn cyd-destunau gwahanol, dadansoddi casgliadau ac arfarnu'n adeiladol. Mewn gwaith grŵp maent yn effro i'r hyn a fyddai'n galluogi'r grŵp i ddatblygu ac yn addasu eu cyfraniadau'n bwrpasol, gan gynnwys trefnu gweithgareddau, denu eraill a thrafod er mwyn dod i gasgliadau.
	Cydweithio a thrafod	

Llythrennedd – Ysgrifennu

ar draws y cwricwlwm

Y Cyfnod Sylfaen

Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm Y Cyfnod Sylfaen		Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	<ul style="list-style-type: none"> creu ac arddweud brawddeg sy'n disgrifio digwyddiadau, profiadau a lluniau i gyfleu ystyr cyfleu ystyr drwy luniau a thrwy wneud marciau deall natur wyddorol ysgrifennu a bod gan symbolau ysgrifenedig ystyron copio ac ysgrifennu llythrennau, geiriau ac ymadroddion defnyddio lluniau a symbolau i greu ysgrifennu ar sgrin 	<ul style="list-style-type: none"> cyfathrebu'n bwrpasol wrth ysgrifennu, e.e. <i>efallai gyda chymorth lluniad</i> defnyddio lluniau, symbolau, dilyniant o lythrennau a geiriau cyfarwydd i gyfleu ystyr sgwrsio am yr hyn y maent yn mynd i'w ysgrifennu ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau syml gan ddarllen eu hymdrechion dewis llythrennau, geiriau a lluniau i greu ysgrifennu ar sgrin 	<ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu at ddibenion gwahanol ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllen arall – gall y testun gynnwys manylion a lluniau defnyddio sgwrs i gynllunio ysgrifennu aiddarllen eu gwaith ysgrifennu a'i wella i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr arbrofi â ffurfiau a chynlluniau gwahanol ar sgrin, gan symud testun a lluniau o gwmpas yn hwylus
	Strwythur a threfn	<ul style="list-style-type: none"> dechrau gosod geiriau, arwyddion neu symbolau mewn dilyniant priodol cyfrannu i ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes, e.e. <i>drwy ysgrifennu ar y cyd</i> dangos dealltwriaeth o wahanol ffurfiau, e.e. <i>cardiau, rhestri, gwahoddiadau</i> 	<ul style="list-style-type: none"> trefnu cynnwys mewn dilyniant cywir, e.e. <i>cyfarwyddiadau, ryseitiau</i> dilyn ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes deall gwahanol fathau o ysgrifennu, e.e. <i>cofnod o ddigwyddiadau, disgrifiadau, naratif</i> 	<ul style="list-style-type: none"> dilyn strwythur yn eu gwaith ysgrifennu gyda chymorth, e.e. <i>adroddiadau, rhestri</i> dilyn a datblygu ar ffurf sydd wedi'i modelu gan yr athro/athrawes trefnu darn o ysgrifennu gyda dechrau, canol a diwedd defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas a'r darllynydd
Ysgrifennu'n gywir	Iaith		<ul style="list-style-type: none"> defnyddio geiriau penodol sy'n ymwneud â phwnc eu hysgrifennu 	<ul style="list-style-type: none"> deall a defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu defnyddio geiriau syml sy'n perthyn i'r pwnc mewn modd priodol
	Llawysgrifen Cystrawen Atalnodi Sillafu	<ul style="list-style-type: none"> dal offer ysgrifennu mewn modd priodol ysgrifennu o'r chwith i'r dde gwahaniaethu rhwng llythrennau gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>dau gi, y gath</i> defnyddio'r gytsain gychwynol gywir drwy ddechrau defnyddio gwybodaeth ffonig defnyddio geiriau cyfarwydd ac aml eu defnydd wrth ysgrifennu. 	<ul style="list-style-type: none"> creu priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer yn eglur eu siâp ac yn wynebu'r ffordd gywir defnyddio priflythyren ac atalnod llawn yn weddol gyson dechrau defnyddio cysyllteiriau er mwyn ymhelaethu ar bwynt dangos ymwybyddiaeth bod rhai synau'n newid ar ddechrau geiriau, e.e. <i>y ferch</i> sillafu rhai geiriau mewn modd confensiynol gan gynnwys geiriau cytsain-llafariad-cytsain, a llythrennau dwbl, e.e. <i>rh, ff</i> defnyddio strategaethau sillafu megis sain-symbol sy'n cyfuno a segmentu sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir. 	<ul style="list-style-type: none"> ffurfio priflythrennau a llythrennau bach yn gywir ac yn gyson o ran eu maint defnyddio priflythyren, atalnod llawn a gofynnod yn gywir, a defnyddio ebychnod weithiau defnyddio cysyllteiriau i ysgrifennu brawddegau cyfansawdd defnyddio geiriau trefnu, e.e. <i>yn gyntaf, yna, wedyn, i gloi</i> defnyddio ffurfiau safonol berfau, e.e. <i>gweld/gwelais, mynd/aeth</i>, a chytundeb berf a goddrych, e.e. <i>roeddwn i/roedden ni</i> defnyddio ambell dreigl y maent wedi ei ymarfer ar lafar, e.e. <i>fy mag, i'r dref</i> defnyddio strategaethau sillafu fel rhannu'n sillafau, gwreiddiau syml ac ôl-ddodiaid, e.e. <i>-wr, -ydd, -og</i> sillafu rhai geiriau yn cynnwys <i>ŷ/u/i</i>, e.e. <i>tŷ, llun</i>, a llafariad clwm, e.e. <i>coed</i> sillafu geiriau aml eu defnydd yn gywir

Llythrennedd – Ysgrifennu

ar draws y cwricwlwm

Cyfnod Allweddol 2

		Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	<ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb cynnwys manylion, gwybodaeth neu sylwadau perthnasol yn eu gwaith ysgrifennu nodi syniadau i'w defnyddio wrth ysgrifennu defnyddio nodweddion ar sgrin, e.e. <i>ffont, lliw, torri, gludo, newid maint</i>, i gyflwyno'u gwaith mewn ffyrdd sy'n ennyn diddordeb y darlennydd ac yn gwella'r ystyr adolygu a gwella darnau o'u gwaith 	<ul style="list-style-type: none"> addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darlennydd, gan ddewis geiriau'n addas, e.e. <i>iaith ddisgrifiadol a pherswâd</i> esbonio'r prif syniad(au) gyda manylion ategol gan gynnwys sylwadau ac esboniadau lle bo'n berthnasol casglu syniadau i gynllunio ysgrifennu archwilio a gwneud defnydd addas o wahanol fathau o ysgrifennu ar sgrin i ryngweithio ag eraill, e.e. <i>gwefannau, negeseuon e-bost, blogiau</i> gwella'u gwaith ysgrifennu, ei wirio o ran eglurder a threfn 	<ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darlennydd, e.e. <i>drwy ddefnyddio geirfa addas a dyfeisiau cyflwyno</i> ymhelaethu ar y prif syniad(au) drwy roi rhesymau, gwybodaeth ac enghreifftiau ategol defnyddio technegau wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, e.e. <i>map meddwl, dilyniannu, gweithgareddau mat bwrdd</i> archwilio cynllun tudalennau'r we i greu deunyddiau gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael diwygio a gwella'u gwaith ysgrifennu, gan esbonio pam maent wedi gwneud newidiadau 	<ul style="list-style-type: none"> addasu arddull ysgrifennu i'r darlennydd a'r diben, e.e. <i>arddull ffurfiol ar gyfer darlennydd anhysbys, arddull syml ar gyfer darllenwyr iau</i> ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr o bwnc neu thema defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gynllunio ysgrifennu, e.e. <i>nodiadau, diagramau, siartiau llif</i> archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno gwaith yn briodol, e.e. <i>delwedd symudol, sleidiau, trosleisio</i> ystyried, golygu ac aildrafftio i wella'u gwaith ysgrifennu
	Strwythur a threfn	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu ysgrifennu gan ddefnyddio cyflwyniad i'r pwnc a diweddglö cyflwyno prosesau, digwyddiad neu adroddiadau mewn dilyniant clir defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol, e.e. <i>diagramau wedi'u labelu</i> 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu, e.e. <i>tablau, holiaduron</i> ysgrifennu cyflwyniad, datblygu cyfres o syniadau a diweddglö trefnu'r gwaith ysgrifennu mewn dilyniant neu adrannau rhesymegol, drwy ddechrau defnyddio paragraffau defnyddio gwybodaeth weledol, e.e. <i>darluniau, diagramau a graffiau</i>, sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu, e.e. <i>is-benawdau, penawdau</i> ysgrifennu cyflwyniad sy'n gosod cyd-destun, cyfres o bwyntiau mewn trefn briodol a diweddglö addas defnyddio paragraffau sydd â phrif syniad a manylion perthnasol defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol 	<ul style="list-style-type: none"> addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol, e.e. <i>adrodd am ddigwyddiad, ymchwiliad neu arbrawf</i> ysgrifennu cyflwyniad effeithiol sy'n gosod cyd-destun a diben, cydbwysedd addas rhwng ffeithiau a safbwyntiau, diweddglö cryno defnyddio paragraffau gan wneud cysylltiadau rhyngddynt defnyddio nodweddion a diwyg sydd wedi'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir
Ysgrifennu'n gywir	laith	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol defnyddio geirfa sy'n gysylltiedig â'r pwnc neu â chyd-destun y pwnc 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol defnyddio geirfa bwnc benodol yn annibynnol 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol defnyddio geirfa briodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	<ul style="list-style-type: none"> cychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ehangu brawddegau ac ymadroddion syml defnyddio amrywiaeth o gysyllteiriau sy'n cyfleu achos a chanlyniad, e.e. <i>oherwydd, ar ôl</i> defnyddio ffurfiau safonol berfau'n berthnasol i gyd-destun defnyddio ffurfiau gorffennol y ferf yn gyson, e.e. <i>cytsain yn dyblu (e.e. gofyn – gofynnodd)</i> defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin fel arfer yn gywir, e.e. <i>ar ben</i> defnyddio atalnod llawn, gofynnod, ebychnod ac atalnod ar gyfer rhestri defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, e.e. <i>y geiriau amsillafog mwyaf cyffredin</i> sillafu ffurfiau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, e.e. <i>-au, -ion</i> sillafu pob gair aml ei ddefnydd yn gywir cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy a chyflwyno'u gwaith mewn modd priodol gan gyfuno llythrennau mewn ambell air. 	<ul style="list-style-type: none"> amrywio trefn geiriau, ymadroddion a chymalau mewn brawddegau defnyddio ansoddeiriau ac adferfau i ychwanegu diddordeb ac er mwyn ysgrifennu'n fanwl gywir defnyddio cysyllteiriau i ddangos cysylltiadau o fewn brawddegau defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i> defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. <i>fy nghalon</i> defnyddio atalnodi i ddynodi brawddegau, a dechrau defnyddio dyfynodau, atalnod i farcio cymalau ac ymadroddion a chollnodau i hepgor llythrennau, e.e. <i>hoffi'r ysgol (i + yr)</i> defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth am deuluoedd geiriau, gwreiddiau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu geiriau, e.e. <i>geiriau â phatrymau mwy cymhleth</i> sillafu mwy o eiriau lluosog yn gywir mewn cyd-destun, e.e. <i>-iau, -i</i> cynhyrchu llawysgrifen sy'n glir ac yn ddarllenadwy ac a all fod yn glwm. 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strwythurau brawddeg gwahanol, gan gynnwys brawddegau cymhleth sy'n dangos perthynas amser neu achos, e.e. <i>cyn cychwyn ... , o wneud hyn, yna...</i> defnyddio'r amodol i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd, e.e., <i>pe bai, gallai</i> defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i> treiglo'n gywir yn arbennig ar ôl y rhan fwyaf o'r arddodiaid a'r rhagenwau, e.e. <i>am funud, dy fam</i> defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn tywys y darlennydd mewn brawddegau cymhleth, e.e. <i>atalnod, pwyntiau bwled, dyfynodau a chollnod i ddynodi perchnogaeth (e.e. llyfrau'r bechgyn)</i> defnyddio amrywiaeth o strategaethau i sillafu geiriau a phatrymau cymhleth rheolaidd, e.e. <i>penderfynu, cystadleuaeth</i> sillafu mwy o eiriau lluosog, e.e. <i>-oedd, -od, -ydd</i>, a geiriau sy'n dyblu cytseiniaid, e.e. <i>cynnwys</i>, yn gywir mewn cyd-destun cynhyrchu llawysgrifen ddarllenadwy, glwm sy'n llifo'n naturiol. 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strwythurau brawddeg amrywiol er mwyn pwysleisio a chreu effaith defnyddio ffurf safonol amrywiaeth o ferfau, e.e. <i>ffurfiau presennol, gorffennol, negyddol</i> treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad yw pob llythren yn dilyn y drefn arferol, e.e. <i>y llinell</i> defnyddio'r ystod gyfan o atalnodi'n gywir i wneud i'r ystyr fod yn glir defnyddio strategaethau i sillafu geiriau amsillafog, cymhleth ac afreolaidd yn gywir sillafu geiriau lluosog afreolaidd yn gywir, e.e. <i>car – ceir, plentyn – plant</i> cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

Llythrennedd – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3

		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	<ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn addas at y diben esbonio syniadau'n gyflawn gan ddangos goblygiadau a chanlyniadau cynllunio gwaith ysgrifennu gan wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffyrdd gorau o gyflwyno cynnwys i greu effaith, e.e. <i>paratoi achos ar gyfer rhywbeth, dewis manylion sy'n helpu'r darlennydd i ddeall</i> defnyddio offer a chonfensiynau TGCh i gyflwyno gwybodaeth a data ac i strwythuro ysgrifennu nodi meysydd i'w gwella yn eu gwaith ysgrifennu, golygu ac ailddrafftio 	<ul style="list-style-type: none"> addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. <i>dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi</i> gwneud cysylltiadau a/neu ymhelaethu er mwyn sicrhau eu bod yn ymdrin yn llawn â'r pwnc wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno ysgrifennu gan ddefnyddio TGCh er mwyn cyfathrebu'n glir ac effeithiol, e.e. <i>rhyddiaith ddi-dor ar gyfer dadl fanwl, tudalennau â hyperddolenni ar gyfer gwybodaeth wahanol am y pwnc, graffeg sy'n symud i ddangos prosesau</i> defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailddrafftio 	<ul style="list-style-type: none"> crynoi, trafod materion ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben pwysu a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â phwnc cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol gwneud dewisiadau dychmygus ynghylch cynnwys a chyflwyniad gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio TGCh drwy wahaniaethu gwella'u gwaith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol a'i ailddrafftio
	Strwythur a threfn	<ul style="list-style-type: none"> addasu strwythurau wrth ysgrifennu ar gyfer cyd-destunau gwahanol, e.e. <i>disgrifio canlyniad, amlinellu proses neu drafod dadl</i> dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn defnyddio paragraffau i drefnu darnau ysgrifennu hirach yn adrannau 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strwythur testun cyfan i fod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, e.e. <i>gosod crynodeb ar y cychwyn neu'r diwedd, data mewn adroddiad neu atodiad, defnydd o dudalennau cynnwys, penodau</i> dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol trefnu darnau ysgrifennu hirach gan wneud cysylltiadau o fewn a rhwng paragraffau 	<ul style="list-style-type: none"> dewis a dethol strwythurau testun cyfan er mwyn bod yn gymorth i gyfleu a chyfathrebu'r ystyr, e.e. <i>beth yw'r strwythurau gorau i ddisgrifio, esbonio a pherswadio'n llwyddiannus?</i> dewis strwythurau i drefnu gwaith ysgrifennu, gan ddefnyddio nodweddion priodol yn effeithiol dewis, dadansoddi a gwerthuso syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol defnyddio paragraffau ac adrannau fel bod darnau ysgrifennu hirach wedi'u trefnu'n rhesymegol
Ysgrifennu'n gywir	iaith	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio iaith amheronol i gyfleu syniadau a gwybodaeth, e.e. <i>mae'r llog yn cael ei gyfrifo gan ... , mae siswrn miniog yn angenrheidiol i ...</i> defnyddio geirfa amrywiol a phwrpasol yn gywir gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc benodol 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio'r trydydd person i gyfleu syniadau a gwybodaeth, e.e. <i>yn ôl arbenigwyr ... , dywed ffynonellau fod ...</i> defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd, e.e. <i>mae sawl agwedd wahanol ar y pwnc hwn ...</i> defnyddio ystod eang o dermau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio ystod eang o strwythurau brawddeg gan ddewis cysyllteiriau i wneud i'r ystyr fod yn glir ysgrifennu brawddegau gan sicrhau bod amser a pherson y ferf fel arfer yn gywir yn ei gyd-destun defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun defnyddio'r ystod lawn o atalnodi'n gywir er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>dynodi brawddegau (atalnodau llawn) a chymalau (atalnod), a defnyddio collnodau'n gywir</i> defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy. 	<ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu'n ramadegol gywir, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau i wneud i'r ystyr fod yn glir ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir fel arfer yn ei gyd-destun defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>yr hanner colon, y colon a dyfynodau</i> defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy. 	<ul style="list-style-type: none"> ysgrifennu brawddegau syml, cyfansawdd a chymhleth yn ramadegol gywir ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun defnyddio'r ystod lawn o atalnodi er mwyn gwneud i'r ystyr fod yn glir, e.e. <i>yr hanner colon, y colon a chromfachau</i> defnyddio amryw o strategaethau ac adnoddau i sillafu geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd a geiriau pwnc benodol yn gywir cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.

Elfennau	Agweddau	Mae dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol.
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	<p>Mae'r dysgwyr yn cadarnhau ac yn datblygu eu sgiliau i gyfleu syniadau, gwybodaeth a safbwyntiau yn effeithiol. Maent yn creu esboniadau a thrafodaethau gan ddefnyddio graffeg, dyluniadau gweledol a dyfeisiadau cyflwyno eraill sy'n berthnasol i'r testun ac sy'n addas i'r darlennydd. Maent yn dangos eu bod yn ymwybodol o ddarllenwyr gwahanol drwy ddewis o'u rhestr o arddulliau a strwythurau'n briodol ac addasu eu defnydd o eirfa. Maent yn gallu ysgrifennu darnau estynedig, sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi.</p> <p>Maent yn llunio brawddegau sy'n cysylltu syniadau â'i gilydd ac yn dangos prif bwyntiau a phwyntiau eraill yn glir. Maent yn defnyddio atalnodi'n gywir i gyfleu ystyr yn glir, ac yn sillafu termau technegol a geiriau cymhleth yn gywir, gan osgoi gwallau cyffredin. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn effeithiol, mewn llawysgrifen neu ar sgrin, gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg i ychwanegu at yr ystyr.</p>
	Strwythur a threfn	
Ysgrifennu'n gywir	Iaith	
	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	

Rhifedd Y Cyfnod Sylfaen		Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2
Llinynnau	Elfennau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	<ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a'r ystafell ddosbarth adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysiad dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio dewis a defnyddio ffeithiau rhif a strategaethau meddwl perthnasol dewis cyfarpar ac adnoddau priodol defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol yn sail wrth amcangyfrif 		
	Cynrychioli a chyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio ieithwedd arferol ac ieithwedd fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau eu hunain cyflwyno'u gwaith ar lafar, ar ffurf llun ac yn ysgrifenedig, a defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gyflwyno data a gasglwyd dylunio a mireinio dulliau anffurfiol, personol o gofnodi, gan symud tuag at ddefnyddio geiriau a symbolau mewn brawddegau rhif 		
	Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol dehongli gwybodaeth a gyflwynir ar ffurf siartiau a diagramau a dod i gasgliadau priodol 		
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	<ul style="list-style-type: none"> cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 10 o leiaf 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrif hyd at 20 o wrthrychau'n ddibynadwy darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 20 o leiaf cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 20 o leiaf defnyddio ffeithiau rhif o fewn 10, h.y.: <ul style="list-style-type: none"> – dyblu a haneru, e.e. $4 + 4$ – bondiau o 10, e.e. $6 + 4$ 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrif setiau o wrthrychau drwy eu rhoi mewn grwpiau o 2, 5 neu 10 darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 cymharu a rhoi rhifau 2 ddegid mewn trefn galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10, er mwyn deillio ffeithiau eraill, h.y.: <ul style="list-style-type: none"> – dyblu a haneru, e.e. <i>cyfrifo 40 + 40 drwy wybod 4 + 4</i> – bondiau o 10, e.e. <i>cyfrifo 60 + 40 drwy wybod 6 + 4</i> galw i gof dablau lluosu 2, 5 a 10 a'u defnyddio
	Ffracsïynau, degolion, canrannau a chymhareb		<ul style="list-style-type: none"> canfod haneri mewn sefyllfaoedd ymarferol 	<ul style="list-style-type: none"> canfod haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	<ul style="list-style-type: none"> cyfuno dau grŵp o wrthrychau er mwyn canfod 'faint sydd yna yn gyfan gwbl?' tynnu gwrthrychau i ffwrdd er mwyn canfod 'faint sydd ar ôl?' 	<ul style="list-style-type: none"> adio a thynnu rhifau sy'n cynnwys hyd at 10 gwrthrych defnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen' i adio 2 gasgliad, gan ddechrau gyda'r rhif mwyaf, e.e. $8 + 5$ 	<ul style="list-style-type: none"> canfod gwahaniaethau bach o fewn 20 drwy ddefnyddio strategaethau 'cyfrif ymlaen' galw i gof ffeithiau rhif hyd at 10 a gwerth lle i adio a thynnu rhifau mwy, e.e. $24 + 4$, $30 + 5$, $34 + 10$
	Amcangyfrif a gwirio		<ul style="list-style-type: none"> cynnig amcangyfrif synhwyrol ar gyfer nifer o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio strategaethau gwirio: <ul style="list-style-type: none"> – adio eto mewn trefn wahanol – defnyddio haneru a dyblu o fewn 20
	Rheoli arian	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at 20c canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o 10c 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1 canfod beth yw'r cyfanswm a rhoi newid o luosrifau 10c
	Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio'r cymariaethau canlynol yn uniongyrchol: <ul style="list-style-type: none"> – hyd, uchder a phellter, e.e. <i>hirach/byrrach na</i> – pwysau/màs, e.e. <i>trymach/ysgafnach na</i> – cynhwysedd, e.e. <i>yn dal mwy/llai na</i> 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio unedau ansafonol i fesur: <ul style="list-style-type: none"> – hyd, uchder a phellter – pwysau/màs – cynhwysedd
Amser		<ul style="list-style-type: none"> dangos dealltwriaeth cynyddol o ba mor hir y mae tasgau a gweithgareddau beunyddiol yn eu cymryd defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas â'u gweithgareddau bob dydd 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio unedau amser safonol i ddarllen faint o'r gloch yw hi ar glochiau analog a chlociau digidol 12 awr defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas a'u gweithgareddau beunyddiol ac wythnosol a thymhorau'r flwyddyn 	<ul style="list-style-type: none"> adnabod 'hanner awr wedi' 'chwarter wedi' a 'chwarter i' ar gloc analog darllen oriau a munudau ar gloc digidol 12 awr
Tymheredd		<ul style="list-style-type: none"> defnyddio cymariaethau uniongyrchol wrth ddisgrifio'r tymheredd, e.e. <i>poeth/oe</i> 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio geiriau disgrifio ar gyfer ystod o dymheredd, e.e. <i>oerach/poethach</i> 	<ul style="list-style-type: none"> cymharu'r tymheredd dyddiol drwy ddefnyddio thermometr (°C)
Arwynebedd a chyfaint Ongl a safle		<ul style="list-style-type: none"> symud i gyfeiriadau penodol 	<ul style="list-style-type: none"> gwneud troeon cyflawn a hanner tro 	<ul style="list-style-type: none"> adnabod hanner a chwarter tro yn glocwedd a gwrthglocwedd adnabod bod chwarter tro yn gyfystyr ag ongl sgwâr
Defnyddio sgiliau data		Casglu a chofnodi data Cyflwyno a dadansoddi data Dehongli canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio un maen prawf cofnodi casgliadau drwy ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau. 	<ul style="list-style-type: none"> didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio mwy nag un maen prawf casglu gwybodaeth drwy bleidleisio neu didoli a chyflwyno ar ffurf lluniau, gwrthrychau neu luniadau llunio rhestrau a thablau yn seiliedig ar y data a gasglwyd.

Rhifedd Cyfnod Allweddol 2		Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5	Blwyddyn 6
Llinynnau	Elfennau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	<ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd adnabod y camau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen er mwyn cwblhau'r dasg neu gyrraedd datrysriad devis mathemateg a thechneg briodol i'w defnyddio devis a defnyddio offer ac unedau mesur addas devis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir 			
	Cynrychioli a chyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n glir drwy ddefnyddio ieithwedd fathemategol mireinio dulliau anffurfiol o gofnodi cyfrifiadau ysgrifenedig, gan symud i ddulliau cyfrifo ffurfiol pan fyddant wedi datblygu digon i wneud hynny defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol devis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas 			
	Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> devis o blith ystod gynyddol o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu a yw atebion yn rhesymol dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr 			
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhif	<ul style="list-style-type: none"> darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1000 cymharu ac amcangyfrif gyda rhifau hyd at 100 defnyddio strategaethau meddwl i alw ffeithiau rhif i gof o fewn 20 galw tablau lluosï 2, 3, 4, 5 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau lluosï a rhannu lluosï rhifau â 10 	<ul style="list-style-type: none"> darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 000 cymharu ac amcangyfrif gyda rhifau hyd at 1000 defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluosï 2, 3, 4, 5, 6 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu lluosï a rhannu rhifau â 10 a 100 	<ul style="list-style-type: none"> darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100 000 cymharu degolion 1 lle degol a 2 le degol defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluosï 2, 3, 4, 5, 6, 8 a 10 i gof a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu lluosï a rhannu rhifau a degolion â 10 a 100 	<ul style="list-style-type: none"> darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 1 miliwn a rhifau i 3 lle degol defnyddio strategaethau meddwl i alw tablau lluosï i gof hyd at 10 x 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau rhannu lluosï rhifau a degolion â lluosrifau 10, e.e. <i>15 x 30, 1.4cm x 20</i>
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio haneri a chwarteri haneru rhifau 2 ddigid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau canfod symiau ffracsiwn yn gysylltiedig â'r ffeithiau sy'n hysbys am luosï, e.e. <i>1/3 o 18, 1/5 o 15</i> 	<ul style="list-style-type: none"> haneru rhifau 3 digid yng nghyd-destun rhif, arian a mesuriadau canfod symiau ffracsiynol drwy ddefnyddio ffeithiau hysbys am dablau, e.e. <i>1/6 o 30cm</i> adnabod mai amryw o rannau sy'n creu rhif cyfan yw ffracsiynau, e.e. <i>2/3, 3/10</i> 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthedd ffracsiynau a degolion syml wrth fesur a chyfrifo, e.e. <i>1/2 = 0.5, 1/10 = 0.1</i> cyfrifo symiau ffracsiwn, e.e. <i>1/8 o 24 = 3, felly 5/8 o 24 = 15</i> defnyddio strategaethau dyblu a haneru wrth weithio gyda chyfrannau syml 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml, e.e. <i>canfod 25% o 60cm a gwybod bod hyn yn gyfwerth â 1/4 o 60cm</i> cyfrifo symiau canrannol yn seiliedig ar 10%, e.e. 20%, 5%, 15% defnyddio cymhareb a chyfrannedd syml
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	<ul style="list-style-type: none"> canfod gwahaniaethau o fewn 100 defnyddio strategaethau meddwl i adio a thynnu rhifau 2 ddigid dosrannu er mwyn dyblu a haneru rhifau 2 ddigid 	<ul style="list-style-type: none"> canfod gwahaniaethau o fewn 1000 adio rhif 2 ddigid at, neu dynnu rhif 2 ddigid o, rif 3 digid drwy ddefnyddio dull meddwl neu ysgrifenedig priodol defnyddio strategaethau meddwl i luosï a rhannu rhifau 2 ddigid â rhif 1 digid 	<ul style="list-style-type: none"> canfod gwahaniaethau rhwng rhifau ag 1 lle degol adio a thynnu rhifau 3 digid drwy ddefnyddio dull meddwl neu ysgrifenedig priodol lluosï a rhannu rhifau 3 digid â rhif 1 digid 	<ul style="list-style-type: none"> adio a thynnu rhifau drwy ddefnyddio rhifau cyfan a degolion lluosï rhifau 2 a 3 digid â rhif 2 ddigid rhannu rhifau 3 digid â rhif 2 ddigid
	Amcangyfrif a gwirio	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio adio i wirio tynnu defnyddio dyblu i wirio haneru adio droeon er mwyn gwirio lluosï 	<ul style="list-style-type: none"> gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10 neu'r 100 agosaf 	<ul style="list-style-type: none"> gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, y 100 neu'r 1000 agosaf 	<ul style="list-style-type: none"> gwirio atebion drwy ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro amcangyfrif drwy dalgrynnu i'r 10, y 100, y 1000 neu'r rhif cyfan agosaf
	Rheoli arian	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £2 a chyfrifo'r newid trefnu a chymharu eitemau hyd at £10 cofnodi arian a wariwyd a chynilion 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio arian i dalu am eitemau hyd at £10 a chyfrifo'r newid rhoi eitemau yn eu trefn a'u cymharu hyd at £100 adio a thynnu cyfansymiau llai na £10 drwy ddefnyddio'r nodiant cywir, e.e. <i>£6.85 – £2.76</i> rheoli arian, cymharu costau rhwng adwerthwyr gwahanol a phenderfynu beth y gellir ei brynu o fewn cyllideb benodedig 	<ul style="list-style-type: none"> cymharu a rhoi eitemau mewn trefn o ran cost, hyd at £1000 adio a thynnu cyfansymiau llai na £100 drwy ddefnyddio'r nodiant cywir, e.e. <i>£28.18 + £33.45</i> cynllunio ac olrhain arian a chynilion drwy gadw cofnodion cywir deall bod cyllidebu yn bwysig 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio'r termau elw a cholled mewn gweithgareddau prynu a gwerthu a gwneud cyfrifiadau syml ar gyfer hyn deall y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â defnyddio cyfrifon banc cymharu prisiau a deall beth sy'n cynnig y gwerth gorau am arian
	Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	<ul style="list-style-type: none"> adnabod mai perimedr yw'r pellter o amgylch siâp defnyddio unedau mesur safonol: <ul style="list-style-type: none"> hyd: mesur ar bren mesur i'r 1/2 cm agosaf pwysau/màs: defnyddio pwysau 5g, 10g a 100g cynhwysedd: defnyddio litrau a hanner litrau; mesur i'r 100ml agosaf 	<ul style="list-style-type: none"> mesur a chyfrifo perimedrau sgwariau a phetryalau defnyddio pren mesur i fesur i'r mm agosaf a chofnodi drwy ddefnyddio cymysgedd o unedau, e.e. <i>1cm 3mm</i> defnyddio cloriannau â rhaniadau i bwysu gwrthrychau i'r 5g, 10g, 25g neu'r 100g agosaf mesur cynhwyseddau i'r 50ml neu'r 100ml agosaf trosi unedau o hyd metrig yn unedau llai, e.e. <i>cm yn mm, m yn cm, km yn m</i> 	<ul style="list-style-type: none"> mesur perimedrau defnyddio offer mesur â rhannau 10 hafal rhwng pob brif uned, a chofnodi drwy ddefnyddio nodiant degol, e.e. <i>4.2cm, 1.3kg</i> defnyddio trawsnewidiadau, e.e. <i>1/4 km = 250m</i>
Amser		<ul style="list-style-type: none"> dweud faint o'r gloch yw hi i'r 5 munud agosaf ar gloc analog a chyfrifo faint o amser sydd yna tan yr awr nesaf darllen oriau a munudau ar gloc digidol 12 awr gan ddefnyddio confensiynau am/pm 	<ul style="list-style-type: none"> dweud faint o'r gloch yw hi i'r funud agosaf ar glochiau analog darllen oriau a munudau ar gloc digidol 24-awr amseru a rhoi digwyddiadau yn eu trefn mewn eiliadau defnyddio calendrau i gynllunio digwyddiadau 	<ul style="list-style-type: none"> darllen a defnyddio clochiau analog a digidol amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau, a rhoi'r canlyniadau mewn trefn cyflawni gweithgareddau ymarferol sy'n cynnwys digwyddiadau wedi'u hamseru ac egluro pa uned amser sydd fwyaf priodol 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio a dehongli amserlenni a rhestrau er mwyn cynllunio digwyddiadau a gweithgareddau a chyfrifo fel rhan o'r broses gynllunio amcangyfrif hyd taith o ran amser amseru digwyddiadau mewn munudau ac eiliadau i'r degfed eiliad agosaf
Tymheredd		<ul style="list-style-type: none"> nodi darlenniadau tymheredd drwy ddefnyddio thermomedrau a dehongli darlenniadau uwch ac is na 0°C 		<ul style="list-style-type: none"> mesur a chofnodi'r tymheredd lle ceir darlenniadau positif a negatif cyfrifo'r gwahaniaeth rhwng gwahanol dymhereddau, gan gynnwys rhai lle bydd y tymheredd yn codi ac yn gostwng heibio 0°C 	
Arwynebedd a chyfaint Ongl a safle		<ul style="list-style-type: none"> canfod arwynebedd drwy gyfrif sgwariau defnyddio pedwar pwynt cwmpawd i ddisgrifio cyfeiriad 	<ul style="list-style-type: none"> adnabod cyfaint mewn cyd-destunau ymarferol defnyddio wyth pwynt cwmpawd i ddisgrifio cyfeiriad 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrifo, amcangyfrif a chymharu arwynebedd sgwariau a phetryalau drwy ddefnyddio unedau safonol canfod cyfeintiau drwy gyfrif a dulliau ymarferol eraill defnyddio cyfesurynnau i bennu lleoliad 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrifo arwynebedd sgwariau a phetryalau defnyddio cyfeirnodau grid i bennu lleoliad
Defnyddio sgiliau data		Casglu a chofnodi data	<ul style="list-style-type: none"> cyflwyno data drwy ddefnyddio: <ul style="list-style-type: none"> rhestrau, siartiau cyfrif, tablau a diagramau siartiau bar a graffiau bar llinell wedi'u labelu fesul 2, 5 a 10 pictogramau lle bydd un symbol yn cynrychioli mwy nag un uned drwy ddefnyddio allwedd diagramau Venn a Carroll echdynnu a dehongli gwybodaeth o siartiau, amserlenni, diagramau a graffiau. 		<ul style="list-style-type: none"> cyflwyno data drwy ddefnyddio: <ul style="list-style-type: none"> rhestrau, siartiau cyfrif, tablau, diagramau a thablau amllder siartiau bar, siartiau data wedi'u rhannu i grwpiau, graffiau llinell a graffiau trawsnewid echdynnu a dehongli gwybodaeth o ystod gynyddol o ddiagramau, amserlenni a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch) defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i ddisgrifio set ddata.
	Cyflwyno a dadansoddi data				
	Dehongli canlyniadau				

Rhifedd Cyfnod Allweddol 3		Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9
Llinynnau	Elfennau	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	<ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd dewis, treialu a gwerthuso amrywiaeth o d dulliau posibl, a rhannu problemau cymhleth yn gyfres o dasgau blaenoriaethu a threfnu'r camau perthnasol sydd eu hangen er mwyn cwblhau tasg neu gyrraedd datrysiad dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell defnyddio cyfrifiannell gwyddonol i gyfrifo'n effeithiol ac effeithlon drwy ddefnyddio'r ystod o fotymau sydd ar gael nodi, mesur neu gaffael yr wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r dasg nodi pa wybodaeth bellach y gellid bod ei hangen a dewis pa wybodaeth sydd fwyaf priodol dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir 		
	Cynrychioli a chyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> egluro canlyniadau a gweithdrefnau yn gywir gan ddefnyddio ieithwedd fathemategol briodol mireinio'r dulliau o gofnodi gwaith cyfrifo defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol, gan gynnwys mesuriadau cyfansawdd dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir yn y cyfryngau, gan adnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol 		
	Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol gwirio a chyfiawnhau canlyniadau neu ddatrysiadau, gan gynnwys trafod risg a siawns lle y bo'n berthnasol dehongli gwybodaeth fathemategol; defnyddio graffiau, diagramau a data i ddod i gasgliadau, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr 		
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	<ul style="list-style-type: none"> darllen ac ysgrifennu rhifau o unrhyw faint a defnyddio'r pedwar gweithrediad a'r cysylltiadau rhyngddynt, e.e. <i>cymhwyso rhannu fel gwrthdro lluos</i> adnabod a chymhwyso ffeithiau a strategaethau meddwl allweddol defnyddio strategaethau priodol ar gyfer lluos a rhannu, gan gynnwys cymhwyso ffeithiau hysbys defnyddio'r termau sgwâr ac ail isradd 	<ul style="list-style-type: none"> adnabod a chymhwyso ffeithiau a strategaethau meddwl allweddol defnyddio ffeithiau hysbys i gyfrifo rhai eraill, e.e. <i>defnyddio 7 x 6 i gyfrifo 0.7 x 6</i> defnyddio'r termau ciwb, trydydd isradd a chilyddol 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio pwerau a deall pwysigrwydd pwerau 10 dangos ymwybyddiaeth o'r angen am ffurf safonol a'i dangos ar gyfrifiannell
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio cywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau i gymharu cyfrannau adnabod bod rhai ffracsiynau yn ddegolion cylchol, e.e. <i>1/3 yw 0.333</i> cyfrifo canrannau symiau gan ddefnyddio dulliau digyfrifiannell lle y bo'n briodol defnyddio cymareb a chyfrannedd gan gynnwys graddfeydd map 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio cywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau i ddewis y rhai mwyaf priodol ar gyfer cyfrifiad symleiddio cyfrifiad drwy ddefnyddio ffracsiynau ar eu ffurf symlaf defnyddio cyfrifiannell i gyfrifo canran, ffracsiwn, degolyn o unrhyw swm lle bo'n briodol cyfrifo canlyniad cynnydd neu ostyngiad canrannol penodol defnyddio cymhareb a chyfrannedd i gyfrifo symiau 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio cywerthedd ffracsiynau, degolion a chanrannau i ddewis y rhai mwyaf priodol ar gyfer cyfrifiad defnyddio a dehongli cynrychioliadau gwahanol o ffracsiynau, e.e. <i>rhifau cymysg a ffracsiynau pendrwm</i> mynegi un swm ar ffurf canran swm arall cyfrifo cynnydd neu ostyngiad canrannol defnyddio cymarebau a chyfrannedd i gyfrifo symiau
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio dulliau ysgrifenedig effeithlon i adio a thynnu rhifau â hyd at 2 le degol lluosi a rhannu rhifau cyfan 3 digid â rhifau cyfan 2 ddigid, gan ymestyn i luosi a rhannu degolion sy'n cynnwys 1 neu 2 le degol â rhifau cyfan 1 digid lluosi a rhannu rhifau cyfan â 0.5, 0.2, 0.1 defnyddio'r drefn gweithrediadau 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio dulliau ysgrifenedig effeithlon i adio a thynnu rhifau â hyd at 2 le degol defnyddio dulliau effeithlon i luosi a rhannu rhifau a degolion cyfan, gan gynnwys degolion fel 0.6 neu 0.06 defnyddio'r drefn gweithrediadau gan gynnwys cromfachau 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio dulliau ysgrifenedig effeithlon i adio a thynnu rhifau a degolion o unrhyw faint, gan gynnwys cymysgedd o rifau bach a mawr sy'n amrywio o ran nifer y lleoedd degol lluosi a rhannu rhifau cyfan a degolion defnyddio'r drefn gweithrediadau gan gynnwys cromfachau a phwerau
	Amcangyfrif a gwirio	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio amrywiaeth o strategaethau i wirio cyfrifiadau gan gynnwys gweithrediadau gwrthdro, cyfrifiadau cyfwerth a rheolau rhanadwyedd talgyrnu er mwyn amcangyfrif atebion cyflwyno atebion hyd at nifer penodedig o leoedd degol 	<ul style="list-style-type: none"> talgyrnu er mwyn amcangyfrif atebion hyd at nifer penodedig o ffigurau arwyddocaol cyflwyno atebion hyd at nifer penodedig o ffigurau arwyddocaol 	<ul style="list-style-type: none"> amcangyfrif a brasamcanu cyfrifiadau, a'u cyfiawnhau dewis y lefel briodol o gywirdeb wrth gyflwyno atebion
	Rheoli arian	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio elw a cholled mewn cyfrifiadau prynu a gwerthu deall y manteision a'r anfanteision sy'n gysylltiedig â chyfrifon banc, gan gynnwys cardiau banc gwneud penderfyniadau gwybodus yn ymwneud â gostyngiadau a chynigion arbennig 	<ul style="list-style-type: none"> gwneud cyfrifiadau mewn perthynas â TAW, cynilo a benthyca gwerthfawrogi egwyddorion sylfaenol cyllidebu, cynilo (gan gynnwys deall adlog) a benthyca 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrifo gan ddefnyddio arian tramor a graddfeydd cyfnewid deall y risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol ffyrdd o gynilo a buddsoddi disgrifio pam bod yswiriant yn bwysig a deall effaith peidio â threfnu yswiriant
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	<ul style="list-style-type: none"> canfod perimedrau siapiau ag ochrau syth darllen a dehongli graddfeydd ar amrywiaeth o offer mesur trosi rhwng unedau'r system fetrig a gwneud cyfrifiadau 	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio unedau mesur cyffredin, trosi rhwng unedau cysylltiedig yn y system fetrig a gwneud cyfrifiadau defnyddio cywerthoedd metrig bras ar gyfer unedau imperial a ddefnyddir bob dydd 	<ul style="list-style-type: none"> canfod beth yw cylchedd cylchoedd creu cysylltiadau rhwng cyflymder, pellter ac amser
	Amser	<ul style="list-style-type: none"> mesur a chofnodi amser, i'r canfed eiliad agosaf defnyddio parthau amser 	<ul style="list-style-type: none"> dehongli ffracsiynau eiliadau'n briodol defnyddio amserlenni a pharthau amser i gyfrifo amser teithio 	
	Tymheredd	<ul style="list-style-type: none"> cofnodi'r tymheredd mewn graddfeydd tymheredd priodol 	<ul style="list-style-type: none"> trosi'r tymheredd rhwng graddfeydd tymheredd priodol 	<ul style="list-style-type: none"> trosi'r tymheredd rhwng graddfeydd tymheredd priodol
	Arwynebedd a chyfaint Ongl a safle	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio fformiwla'u i gyfrifo arwynebedd petryalau a thrioglau mesur a lluniadu onglau 	<ul style="list-style-type: none"> cyfrifo arwynebeddau siapiau cyfansawdd (e.e. <i>gan gynnwys petryalau a thrioglau</i>) a chyfaint solidau syml (e.e. <i>civbiau a chiwboïdau</i>) defnyddio cyfeiriant cwmpawd a chyfeirnodau grid i bennu lleoliadau 	<ul style="list-style-type: none"> canfod beth yw arwynebedd cylchoedd cymhwyso dealltwriaeth o gyfeiriant ac o raddfa i dehongli mapiau a chynlluniau, ac i greu cynlluniau a lluniadau wrth raddfa
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data Cyflwyno a dadansoddi data Dehongli canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> casglu eu data eu hunain ar gyfer arolwg syml, e.e. <i>drwy lunio holiadur</i> lluosi tablau amllder ar gyfer setiau data, wedi'u rhannu'n grwpiau lle bo'n briodol, mewn cyfyngiadau dosbarth cyfartal (rhoddir y grwpiau i'r dysgwyr) lluosi ystod eang o graffiau a diagramau i gyflwyno'r data ac i adlewyrchu pwysigrwydd graddfa dehongli diagramau a graffiau (gan gynnwys siartiau cylch) defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i gymharu dau ddsoraniad (data arwahanol). 	<ul style="list-style-type: none"> cynllunio sut i gasglu data er mwyn profi rhagdybiaethau lluosi ystod eang o graffiau a diagramau i gynrychioli data arwahanol a di-dor lluosi tablau amllder ar gyfer setiau data mewn cyfnodau dosbarth cyfartal, gan ddewis grwpiau fel y bo'n briodol lluosi graffiau i gyflwyno data, gan gynnwys diagramau gwasgariad er mwyn ymchwilio i gydbertynas dehongli diagramau a graffiau er mwyn cymharu setiau data defnyddio cymedr, canolrif, modd ac amrediad i gymharu dau ddsoraniad (data di-dor). 	<ul style="list-style-type: none"> profi rhagdybiaethau, gan benderfynu ar y ffordd orau o gofnodi a dadansoddi gwybodaeth o setiau data mawr lluosi a dehongli graffiau a diagramau (gan gynnwys siartiau cylch) i gyflwyno data arwahanol neu ddi-dor, gyda'r dysgwr yn dewis graddfa briodol dewis a chyfiawnhau'r ystadegau sydd fwyaf addas ar gyfer y broblem, gan ystyried gwerthoedd eithaf (allanolynnau) archwilio canlyniadau'n feiriadol, dewis ystadegau, a chyfiawnhau'r dewis hwnnw gan adnabod cyfyngiadau unrhyw ragdybiaethau a'u heffaith ar y casgliadau a geir defnyddio offer a dulliau mathemategol priodol i luniadu'n fanwl gywir.

Rhifedd Mwy galluog a thalentog		Ymestyn
Llinynnau	Elfennau	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	<ul style="list-style-type: none"> trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd dewis, treialu a gwerthuso amrywiaeth o d dulliau posibl, a rhannu problemau cymhleth yn gyfres o dasgau blaenoriaethu a threfnu'r camau perthnasol sydd eu hangen er mwyn cwblhau tasg neu gyrraedd datrysiad dewis strategaeth feddwl neu ysgrifenedig briodol a gwybod pryd mae'n briodol defnyddio cyfrifiannell defnyddio cyfrifiannell gwyddonol i gyfrifo'n effeithiol ac effeithlon drwy ddefnyddio'r ystod o fotymau sydd ar gael nodi, mesur neu gaffael yr wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r dasg nodi pa wybodaeth bellach y gellid bod ei hangen a dewis pa wybodaeth sydd fwyaf priodol dewis mathemateg a thechnegau priodol i'w defnyddio amcangyfrif a delweddu maint wrth fesur a defnyddio'r unedau cywir
	Cynrychioli a chyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> eglwro canlyniadau a gweithdrefnau yn gywir gan ddefnyddio ieithwedd fathemategol briodol mireinio'r dulliau o gofnodi gwaith cyfrifo defnyddio nodiant, symbolau ac unedau mesur priodol, gan gynnwys mesuriadau cyfansawdd dewis a llunio siartiau, diagramau a graffiau priodol a chanddynt raddfeydd addas dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir yn y cyfryngau, gan adnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol
	Adolygu	<ul style="list-style-type: none"> dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem ac ystyried a yw'r atebion yn synhwyrol, gan gynnwys dangosyddion cyfrifiannell, analog a digidol gwirio a chyfiawnhau canlyniadau neu ddatrysiadau, gan gynnwys trafod risg a siawns lle y bo'n berthnasol dehongli gwybodaeth fathemategol; defnyddio graffiau, diagramau a data i ddod i gasgliadau, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol neu'n ansicr
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio a dehongli rhifau ar ffurf safonol o fewn cyfrifiad
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio a deall y syniad o ganrannau gwrthdro i ddod o hyd i'r swm gwreiddiol defnyddio lluosrifau fel modd effeithiol wrth weithio gyda chanrannau, e.e. <i>lluosi ag 1.2 i gynyddu swm gan 20%</i> defnyddio a deall cymarebau a chyfrannedd mewn 2 ddimensiwn
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	
	Amcangyfrif a gwirio	<ul style="list-style-type: none"> adnabod a diffinio cyfyngiadau ar gywirdeb mesuriadau
	Rheoli arian	<ul style="list-style-type: none"> defnyddio a deall dulliau effeithlon o gyfrifo adlog deall a dangos y broses o gyfnewid arian tramor deall a chyfrifo treth incwm
